

## Nodiadau Fforwm Defnyddwyr Ogwen

11 Tachwedd 2015 4.30y.h

### Presennol

Iwan Jones (cadeirydd)	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
Helen Pye	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Gwyn Thomas	Blaen y Nant
Hywel Roberts	Cyfoeth Naturiol Cymru
Dewi Davies	Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Guto Roberts	Partneriaeth Cwm Idwal
Rob Spencer	Plas y Brenin
Carys Dafydd	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Jonathan Cawley	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mal Creasey	Hyfforddwyr Arweinwyr Mynydd
Arwel Johnston	Tenant
Edwina Johnston	Tenant
Catrin Williams	Cyfieithydd
Paul Rawlinson	Cyfieithydd

### Ymddiheuriadau

Emyr Williams; Paula Roberts; Mair Huws; Edward Jones; Naomi Jones; Jerome a Saskia; Bedwyr ap Gwyn; Mair Leveret; Dewi Roberts; Andy Harbach; Alwyn Griffiths; Huw Green; Wil Sandison.

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd. Rhoddodd groeso arbennig i Helen Pye a Dewi Davies oedd yn y cyfarfod am y tro cyntaf yn rhinwedd eu swyddi newydd y naill gyda' Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar llall gyda'r

Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Roedd Rob Spencer yno am y tro cyntaf hefyd yn cynrychioli Plas y Brenin.

2. Nodiadau'r cyfarfod diwethaf.

a. Derbyniwyd cywirdeb y nodiadau.

b. Materion yn codi -

- tud 2 dywedodd Guto Roberts ei fod wedi cysylltu gyda Huw a Gavin sy'n gweithio ar yr A5 yn y cyffiniau a'u bod wedi cadarnhau mai lolo Tegid oedd yn parhau i fod yn gyfrifol am yr A5 yn yr ardal hon.
- Tud 4 Adroddwyd bod Rhys Evans wedi edrych i weld os oedd darn o dir yn yr ardal fyddai'n addas i'w ddefnyddio fel maes parcio gorlif - ond heb lwyddiant. - cafwyd trafodaeth fer ar y mater o barcio ar y pafin. Dywedodd Arwel Johnson bod angen rhoi arwyddion 40 ar yr A5. Soniwyd hefyd am y posibilrwydd ddymchwel y ffens rhwng maes parcio APCE a maes parcio Bwthyn Idwal - er mwyn creu mwy o lefydd parcio. Ond atebwyd nad oedd hyn yn bosibl oherwydd bod yr Hostel leuenctid angen defnyddio'r lle ar gyfer pebyll.

3. Diweddariad ar weithgareddau diweddar yn yr ardal, Guto Roberts, Partneriaeth Cwm Idwal.

- Yn ddiweddar cariodd hofrennydd ddigon o gerrig i'r cwm fel bod modd adeiladu 70meter o lwybr yn y man gwlyb ar y llwybr isaf yr ochr belâ i'r llyn.
- Bu yn gweithio ar y cyd â Neuadd Ogwen a'r heddlu ym Methesda ar gynllun o'r enw Darganfod Dyffryn Ogwen. Bwriad y cynllun yw ennyn parch a diddordeb pobl ifanc yn eu bro a'r bobl. Gydag arweiniad gan bobl broffesiynol , maent eisoes wedi bod yn tynnu lluniau o'r fro, y cam nesaf fydd cynhyrchu ffilm.
- Bu archeolegydd a hanesydd yn y cwm yn ddiweddar i edrych ar y chwarel hogi.
- Mae pobl yn parhau i fod yn anghyfrifol hefo'u cwn. Mae'n fwriad rhoi arwyddion ( llun o gi ar dennyn) ar ddechrau'r llwybr i fyny'r cwm. Dywedodd Helen Pye bod gan y Parc arwyddion - ond fel arfer dim ond yn

ystod cyfnod wyna y maent yn cael eu defnyddio. Dywedodd y byddai mewn cysylltiad i drafod y mater ymhellach. Dywedodd Guto y byddai'n werth ystyried cael arolygiad 'breeding bird survey' - ac os gellir profi bod cwn yn aflonyddu ar yr adar yna byddai modd eu gwahardd o'r cwm yn ystod y cyfnod wyna. Cafwyd trafodaeth ar y broblem, gydag Arwel Johnson yn dweud bod nifer o berchnogion yn gadael eu cwn yn rhydd o flaen adeilad Ogwen hefyd. Gofynnodd Gwyn Thomas beth oedd agwedd y sefydliadau oedd yn bresennol yn y cyfarfod tuag at ffermwyr yn saethu cwn. Atebodd Guto Roberts bod gan ffermwyr yr hawl i saethu cwn os oeddynt yn ymyrryd ar eu defaid.

Cytunwyd i roi'r arwydd cwn ar dennyn i fyny ac i weld os oedd hynny'n gwneud gwahaniaeth cyn ystyried unrhyw weithgaredd pellach.

Gofynnodd Gwyn Thomas be oedd y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch bugeilio yn y cwm? Atebodd Guto Roberts bod problemau wedi bodoli ynghylch yswiriant ond bod hyn bellach wedi ei ddatrys a bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ysgrifennu contract newydd.

#### 4. Diweddariad ar Fwthyn Ogwen.

Adroddodd Dewi Davies ei fod wedi bod yn ei swydd ers 3 mis bellach a bod Bwthyn Ogwen wedi agor ei ddrysau i blant a phobl ifanc dros y ddau fid diwethaf. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio mewn Partneriaeth gyda Outward Bound sy'n darparu gweithgareddau awyr agored i blant a phobl ifanc. Yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am y bwyd ac ati. Er ei bod yn ddyddiau cynnar - mae'n argoeli'n addawol iawn - staff yr Outward bound wrth eu bodd ac ymateb gwych wedi bod gan yr ysgolion.

Bydd cwt y ceidwaid yn agor yn y dyfodol agos, yn yr adeilad yr arferid ei ddefnyddio i gadw 'stores' - bydd y staff sy'n gweithio yn Tan y Celyn yn symud yno. Estynnodd groeso i unrhyw un alw draw am baned.

#### 5. Diweddariad ar ddehongli yn Ogwen

(yn absenoldeb Naomi Jones - darllenwyd ei hadroddiad gan y cadeirydd.

- Mae ffilm newydd gan Film Up High wedi'i chomisiynu ar gyfer y Ganolfan, i ddangos mwy o amrywiaeth o dirwedd a gweithgaredd yng Nghwm Idwal a'r ardal gyfagos. Rydym yn disgwyl derbyn y ffilm o fewn

y bythefnos nesaf. Bydd dwy ffilm bellach yn cael eu dangos ar wefan yr Awdurdod i hyrwyddo'r safle.

- Yn dilyn cyfarfod ar y safle gyda Helen Pye a Nia Roberts, penderfynwyd gwneud addasiadau bychain erbyn mis Ionawr, i wella'r ddarpariaeth sydd eisoes ar gael. Bydd yr addasiadau yn cynnwys:
  - Creu llawlyfr syml i'r sawl sy'n agor a chau'r adeilad wybod sut i drin y peiriannau.
  - Ar ôl derbyn y ffilm newydd gan Film Up High, byddwn yn gwirio os ydi ansawdd uchel y ffilm yn cael effaith ar edrychiad y ffilm wrth gael ei thaflunio (mae'r safon yn wael ar hyn o bryd ac rydym yn ansicr os mai problem gydag ansawdd y ffilm neu gyda'r taflunydd ydi hyn). Os na fydd ansawdd yr edrychiad yn well, byddwn yn arbrofi gyda gosod sgrin yn y Ganolfan i ddangos y ffilmiau, yn hytrach na'u taflunio.
  - Byddwn yn gosod darpariaeth well i arddangos taflenni.
  - Byddwn yn argraffu'r posteri #cwmidwal60 ar foamex, fel eu bod yn rhan barhaol o'r arddangosfa.
  - Byddwn yn asesu'r posibilrwydd o gynhyrchu rhagor o feinciau yn fewnol.
  - Byddwn yn asesu'r posibilrwydd o osod plac ger Wal Darwin i dynnu sylw at y taflenni.
- Yn fuan yn y flwyddyn newydd, bydd Naomi yn galw cyfarfod gyda'r bartneriaeth a'r Swyddog Partneriaeth er mwyn i'r Awdurdod asesu'r anghenion ar gyfer yr ystafell ddehongli a llunio cynllun dehongli newydd. Fydd hyn ddim yn golygu bod popeth yn yr Ystafell yn cael ei newid. Byddwn yn edrych yn ofalus ar ba negeseuon sydd angen eu cyfleu a'r ffordd orau i wneud hynny. Ni fydd unrhyw newidiadau yn digwydd heb ymgynghori gyda'r bartneriaeth a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn benodol, gan gofio buddsoddiad gwreiddiol sylweddol yr Ymddiriedolaeth i'r Ystafell ddehongli.

Gofynnodd i unrhyw un fyddai gyda chwestiwn i'w ofyn yn dilyn y cyfarfod i gysylltu gyda hi yn uniongyrchol.

Dyweddodd Dewi Davies fod yr Ymddiriedolaeth yn bwriadu datblygu elfen o ddehongli ar safle'r Ymddiriedolaeth hefyd ac y byddai'n dda o beth i gael trafodaeth er mwyn osgoi dyblygu.

Gadawodd Guto Roberts a Dewi Davies y cyfarfod am 5.30.

6. Diweddariad ar y sefyllfa gyfredol ar y safle - yn absenoldeb Edward Jones, darllenwyd yr adroddiad gan y Cadeirydd -

Ymddiheuriadau yn gyntaf am fethu a bod yn bresennol heddiw.

Ers y cyfarfod diwethaf mae dau ddatblygiad pwysig o ran y safle:

- Derbyniwyd cadarnhad hir ddisgwyliedig bod y datblygiad wedi cyrraedd gofynion 'Rhagoriaeth' BREEAM. Bu nifer o rwystrau i'w goresgyn ond gyda dyfalbarhad fe ddaeth y cwch i'r lan. Diolch i bawb fu'n ynghlwm â'r broses.
- Yn dilyn ymadawiad nifer o unigolion o wahanol gwmnïau fu'n ymwneud a'r prosiect llwyddwyd i gael y prif gontractwyr yn ôl ac mae'r gwaith o gywiro'r diffygion sydd wedi dod i'r amlwg ar y gweill ar hyn o bryd.

Er gwybodaeth mae'r diffyg gwasanaeth bws presennol a thrafferthion parcio wedi eu trafod gan Bartneriaeth Goriad Gwyrdd. Yr ydym yn crynhoi data ar nifer y cerbydau yn y maes parcio a'r data cerddwyr i Gwm Idwal fel y gall y Bartneriaeth Goriad Gwyrdd asesu dichonolrwydd gwasanaeth bws rhwng Bethesda ac Ogwen.

7. Cynllun arfaethedig y Carneddau - Jonathan Cawley.

Adroddodd bod yr Awdurdod- wedi penderfynu ail gyflwyno cais i gronfa'r 'Heritage Lottery Fund'. Fe fyddant yn cydweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol - mae CADW hefyd wedi dangos diddordeb. Bydd y cais presennol yn llai o ran ei sgôp ac o ran ardal, bydd yn canolbwyntio ar drefi gogledd y Carneddau - Bethesda, Llanfairfechan a Phenmaenmawr - bydd elfen gref o dynnu'r gymuned i mewn. Bydd yn cynnwys yr ochr yr amgylchedd a hanes - mae cyfoeth mawr o henebion archeolegol yno. Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd yn helpu i ysgrifennu'r cais ac fe fydd yn cael ei gyflwyno fis Mai.

Nododd Arwel Johnson ei bod yn ddistawach yng ngogledd Eryri- a bod pobl yn gwerthfawrogi hynny - a oes pwrpas tynnu mwy o sylw ato?

Ymatebodd Jonathan Cawley gan ddweud mai bwriad y cynllun fydd dehongli'r lle yn sensitif, ar hyn o bryd nid yr archeoleg yno yn cael ei reoli o gwbl - mae cyfoeth o enwau llefydd ynghlwm â'r lle hefyd.

Gofynnodd Gwyn Thomas pwy fyddai'n elwa o'r cynllun?

Roedd sawl un o'r farn y byddai'r cymunedau lleol yn elwa - byddai'r cynllun yn gweithio gyda'r tîrfeddianwyr a gyda'r rhai sy'n defnyddio'r mynyddoedd. Byddai'n ysbrydoli pobl i ddod allan - nifer ddim yn ymwybodol o'r trysor sydd yn eu 'gardd gefn'.

Dyweddodd Gwyn Thomas ei fod o'r farn mai un o'r prif rwystrau i fwynhau cefn gwlad oedd y gost trafniadaeth - ac nad oedd ysgolion yn gallu fforddio i dalu am fysiau. Roedd o'r farn y dylai'r Parc hoelio eu sylw ar gael mwy o deuluoedd lleol allan a gweithio mwy gydag ysgolion.

Aeth ymlaen i ddweud nad oedd o'r farn bod adeilad Ogwen wedi bod yn llwyddiant - a bod nifer o broblemau ynghylch y lle. Ymatebodd Helen Pye - yn ei barn, hi fel rhywun oedd newydd symud i'r ardal i weithio roedd yr adeilad yn adnodd gwych oedd yn cael ei werthfawrogi gan lawer - cyfaddefodd bod angen gwella man bethau.

Aeth Gwyn Thomas ymlaen i ddweud bod problemau elfennol gyda phrosiectau cyfalafol ar ôl iddynt ddod i ben. Atebwyd bod gan brosiectau'r HLF elfen gref o gynladwyedd wedi i'r cynllun orffen.

## 8. Unrhyw fusnes arall

a. Sefyllfa'r bysiau yn Ogwen. Adroddodd Arwel Johnson ddirgelwch bws sydd wedi bod yn teithio o Fethesda i Lanrwst yn ddiweddar - ei fod yn mynd yn gynnar iawn yn y bore gan ddychwelyd am tua 6.25 yr hwyr. Dywedodd iddo ddilyn y bws un tro - ac er bod enw Llanrwst ar flaen y bws - roedd y bws yn troi yn ei ôl yn un o'r manau parcio wrth ymyl y llyn. Doedd dim son am y bws hwn ar amserlenni Cyngor Gwynedd.

b. Creu llwybr i weld Rhaeadr y Benglog - Mal Creasey. Dywedodd Mal Creasey fod Rhaeadr y Benglog yn un o raeadrau gorau Cymru os nad Prydain, ac nad oes modd cael mynediad hawdd ato.

Ategododd Arwel Johnson bod pobl yn aml yn gofyn sut oedd mynd at y rhaeadr.

Dyweddodd Helen Pye ei bod yn arfer gweithio yn y Bannau – a bod ganddi brofiad o greu llwybrau at Raeadrau.

Dyweddodd ei bod yn fodlon cyfarfod gyda chynrychiolydd o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n berchen ar y tir – i weld os oedd modd gwneud rhywbeth am y mater.

Ychwanegwyd bod hen ffordd porthmon yn y cyffiniau - sef y ffordd a ddefnyddiwyd cyn agor yr hen A5 ac efallai y byddai modd ymgorffori'r llwybr hwnnw i'r cynlluniau.

Penderfynwyd pe byddai gytundeb i fynd ymlaen gydag unrhyw waith adeiladu y byddai'n rhaid iddynt fod yn anymwthiol.

- c. Rhoddodd Helen Pye ddiweddariad byr ar y newidiadau sydd wedi digwydd ers iddi hi gael ei phenodi yn Brif Warden i ogledd y Parc.
- Mae Alan Pritchard yn gyfrifol am Ddyffryn Ogwen unwaith eto, gyda Helen ei hun yn gyfrifol am ardal Capel Curig fydd yn golygu y bydd yn galw i mewn i'r ganolfan yn Ogwen yn rheolaidd.
  - Yn ddiweddar cafod y Parc Cenedlaethol fenthyg 'Google Trecker' a bu'r wardeiniaid a gwirfoddolwyr yn cerdded ar amryw o lwybrau yn y Parc Cenedlaethol gan gynnwys llwybrau'r Wyddfa, Cader Idris a Chwm Idwal hefyd. Bydd y lluniau, sydd yr un fath a 'google streetview' ar gael i'r cyhoedd yn y dyfodol agos.

Diolchodd y cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 6.30yh.